



# Strategaeth Iaith Gymraeg 5 Mlynedd Cyngor Sir Fynwy

## 2022 - 2027

Fersiwn Ymgynghori (Rhagfyr 2021)

# Rheolaeth Fersiwn

| | |
|---|---|
| **Teitl** | Strategaeth yr Iaith Gymraeg 2022 - 2027 |
| **Pwrpas** | Dogfen gyfreithiol o dan y Mesur Iaith Gymraeg (Cymru) 2011 |
| **Perchennog** | Swyddog Polisi, Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg |
| **Wedi ei gymeradwyo gan** | Heb ei gymeradwyo |
| **Dyddiad** | |
| **Rhif Fersiwn** | 0.2 |
| **Statws** | Fersiwn Ymgynghori - Heb ei gymeradwyo eto gan y Cyngor |
| **Amlder Adolygiad** | Blynyddol |
| **Dyddiad adolygiad nesaf** | xxxxxxx |
| **Ymgyngoreion** | Grŵp Cynhwysol Sir Fynwy; ymgynghoriad cyhoeddus am chwe wythnos; Pwyllgor Dethol Cymunedau Cryf |

Mae'r strategaeth hon wedi ei pharatoi yn unol gyda Mesur Iaith Gymraeg (Cymru) 2011.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair | 3 |
| Cyd-destun Polisi | 4 |
| Cynnydd 2017-22 | 5 |
| Proffil Lleol yr Iaith | 6 |
| Beth Ydym am Gyflawni: Ein Hamcanion 2022-27 | 8 |
| Cynllun Gweithredu | 10 |
| Canlyniadau Cynllun Strategol Addysg Gymraeg 2022 - 2032 (Atodiad 1) | 14 |
| Cyraeddiadau (Atodiad 2) | 30 |
| Cynllun Gweithredu 2017 - 2022 - A oeddem wedi cyrraedd ein targedau? (Atodiad 3) | 31 |

# Rhagair

Wrth i chi groesi'r ffin i mewn i Gymru a Sir Fynwy,, efallai eich bod yn gwybod eich bod wedi cyrraedd rhywle gwahanol. Efallai nad oes llawer yn sylwi ar y newid mewn daearyddiaeth  i ddechrau a chyn i chi weld y castell cyntaf, byddwch yn siŵr o weld enghreifftiau o'r iaith Gymraeg. Mae i'w gweld nid yn unig ar yr arwyddion ffordd a'r pamffledi ar gyfer twristiaid, ond mae hefyd yn rhan bwysig o ddiwylliant a threftadaeth ein lle, ac yn fwy pwysig, mae'n iaith sy'n tyfu.

Efallai na fyddwch yn clywed y Gymraeg yn cael ei siarad gymaint â'r hyn sydd digwydd yng  Ngheredigion, Gwynedd neu hyd yn oed Caerdydd ond mae 16.4% neu 14,800 ohonom yn siarad yr iaith.   Roedd y ffigwr yma ond yn 2.3% neu 1,844 o bobl 30 mlynedd yn ôl. Nid oes unrhyw arwyddion bod y twf yn arafu gan fod mwy o bobl yn dewis addysg cyfrwng Cymraeg ar gyfer eu plant, yn astudio'r iaith mewn dosbarthiadau neu'n lawrlwytho ap ar eu ffonau clyfar.


Roedd penderfyniad uchelgeisiol y Cyngor i gynnal  Eisteddfod Genedlaethol 2016 yn Y Fenni wedi cael effaith sylweddol ar yr iaith ac yn sicr wedi gadael gwaddol. Mae agosatrwydd ein Sir a'r cysylltiadau trafnidiaeth gyda dinasoedd Caerdydd a Bryste wedi denu llawer o siaradwyr Cymraeg  a'u teuluoedd estynedig o bob rhan o Gymru. Mae ysgolion cyfrwng Cymraeg ardderchog gennym ac rydym yn ffodus iawn i gael partneriaid fel: Menter Iaith a Mudiad Meithrin a Rhieni Dros Addysg Gymraeg sydd yn gweithio mor galed er mwyn tyfu'r iaith yn y Sir.

Mae'r strategaeth  yn disgrifio ein dyheadau ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Os ydym yn cyplysu'r gwaith gwych a wneir gan y grwpiau uchod gyda brwdfrydedd pobl Sir Fynwy tuag at yr iaith, rydym yn credu y bydd hyn yn elwa'r trigolion ac ymwelwyr presennol, a'r rhai yn y dyfodol, sy'n dod i'r rhan arbennig yma o Gymru.









Cyngh. Richard John
Arweinydd y Cyngor

Cyngh. Lisa Dymock
Aelod Cabinet ar gyfer Llesiant Cymunedol a Chyfiawnder Troseddol

# Cyd-destun Polisi

Roedd Mesur Iaith Gymraeg (Cymru) 2011 yn sefydlu'r fframwaith cyfreithiol sydd yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gydffurfio gyda safonau o ran yr iaith Gymraeg. Ym mis Mawrth 2016, cyflwynwyd safonau iaith Gymraeg newydd. Mae 176 o safonau yn berthnasol i Gyngor Sir Fynwy ac mae'r rhain i'w gweld yma yn yr hysbysiad cydymffurfiaeth a gyhoeddwyd ar ein gwefan ddwyieithog. Mae'r safonau yn ceisio sicrhau:

• bod pobl yng Nghymru yn cael hawl gyfreithiol i ddefnyddio'r iaith Gymraeg.

• nid yw'r iaith Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg.

• mae defnydd yr iaith yn cael eu hyrwyddo a'u hwyluso ym mhob agwedd o waith a'r gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor.

Mae dwy o'r Safonau yma yn manylu'r angen i lunio a monitro Strategaeth Iaith Gymraeg.

Mae Safon 145 yn gosod dyletswydd arnom i lunio Strategaeth Iaith Gymraeg 5 mlynedd er mwyn dangos sut y byddwn yn hyrwyddo, hwyluso a'n tyfu'r defnydd o'r Gymraeg mewn Sir gan gynnwys targed ar gyfer y nifer o siaradwyr Cymraeg a datganiad ynglŷn â sut ydym yn bwriadu cyrraedd y targed yma.

Mae Safon 146 yn gosod dyletswydd arnom i lunio adroddiad monitro ar ddiwedd y cyfnod strategaeth sydd yn dangos y cynnydd yr ydym wedi ei wneud.

Yn ogystal â hyn, mae darnau eraill o ddeddfwriaeth a pholisïau yn llywio ein gwaith:

- Mae Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol yn gosod dyletswydd glir ar gyfer y cryf cyhoeddus i weithio tuag at Gymru sydd yn ffynnu'n ddiwylliannol gyda'r iaith Gymraeg a'r diwylliant yn hyfyw
- Mae Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 yn mynegi uchelgais Llywodraeth Cymru i weld cynnydd yn y nifer o siaradwyr Cymraeg i ddiogelu ein hiaith ac yn gwneud Cymru yn wlad ddwyieithog go iawn.
- Mae'r Strategaeth Mwy Na Geiriau yn hyrwyddo'r "cynnig egnïol" o ran dewis iaith yn y sector gofal cymdeithasol.
- Mae ein Cynllun Corfforaethol yn disgrifio'r dyheadau sydd gennym ar gyfer ein nod craidd o adeiladau cymunedau cynaliadwy a chydnerth sydd yn cydnabod y rôl bwysig y mae'r iaith Gymraeg yn chwarae.
- Mae'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCmA) yn cael ei baratoi o dan Adran 84 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ac yn cydymffurfio gyda Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019. Mae'r Cyngor yn paratoi CSCmA diwygiedig am gyfnod o 10

mlynedd ar gyfer 2022-2032 ac mae hyn yn chwarae rhan bwysig iawn yn y Strategaeth 5 Mlynedd.

# Cynnydd 2017-22

Isod, ceir rhai enghreifftiau allweddol o'r cynnydd sydd wedi ei wneud yn y sir dros y cyfnod 2017 - 2022. Mae'r rhestr lawn i'w gweld ar dudalen 18, Atodiad 2.

- Roeddem wedi lansio'r sgwrsfot iaith Gymraeg gyntaf o holl wasanaethau awdurdodau lleol (Monty) ac ap hunan-wasanaethu dwyieithog llawn (My Monmouthshire) er mwyn i bobl gael mynediad at wasanaethau'r Cyngor
- Rydym wedi gweithio'n agos gyda Mudiad Meithrin er mwyn sefydlu dau grŵp chwarae cyfrwng Cymraeg ers 2017; agorwyd Cylch Meithrin Cil-y-Coed yn Hydref 2017 ac agorwyd Cylch Meithrin Trefynwy yn Ebrill 2019.
- Rydym wedi gweithio mewn partneriaeth gyda Cymraeg I Blant er mwyn trefnu a chynnal sesiynau niferus gyda rhieni a phlant yn ein hybiau ar draws y sir. Mae'r rhain wedi eu cynnal ym Mrynbuga, Cas-gwent, Trefynwy, Gilwern a Rhaglan and ac mae'r sesiynau yma wedi cynnwys: Ioga ar gyfer Babanod, Sesiynau Tylino ar gyfer Babanod a Stori a Chân.
- Rydym wedi gwneud cais ac wedi llwyddo sicrhau cyllid cyfalaf gan Lywodraeth Cymru er mwyn adeiladu darpariaeth gofal plant ar safle Ysgol Y Ffin i ddarparu gofal cofleidiol ar gyfer yr Ysgol Feithrin a dylid cwblhau'r gwaith yma cyn diwedd y flwyddyn ariannol 2021 - 2022.
- Mae darpariaeth Trochi Iaith ac ystafelloedd dosbarth ychwanegol wedi cael eu cytuno gan Ysgol Gyfun Y Ffin. Bydd yn cynyddu capasiti'r ysgol o ran disgyblion o 180 i 210 o ddisgyblion. Dechreuodd yr Uned Drochi ym Medi 2021.
- Mae ystafelloedd dosbarth newydd wedi eu darparu yn Ysgol Gymraeg Y Fenni er mwyn cynyddu'r capasiti.
- Mae cynnig wedi ei wneud fel rhan o Fand C er mwyn adleoli i Ysgol Gymraeg Y Fenni o'r safle presennol i Ysgol Gynradd Deri View. Bydd hyn yn cynyddu capasiti'r ysgol o 310 i 420.
- Rydym wedi sicrhau arian gan Lywodraeth Cymru er mwyn darparu ysgol gynradd newydd yn ardal Trefynwy.
- Mae trafodaethau wedi eu cynnal rhwng Sir Fynwy, Blaenau Gwent a Phowys er mwyn gwyntyllu a allwn weithio ar y cyd i ddarparu ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg er mwyn diwallu anghenion y tair Sir.
- Roeddem wedi sicrhau bod cytundeb lefel gwasanaeth yn cael ei ariannu o dan y Grant Cymorth Ieuenctid gyda'r Urdd rhwng 2017 a 2019 ac ail-ddechreuodd hyn yn 2019 ac mae'n parhau. Mae'r cytundeb ar gyfer parhau i roi cymorth i fyfyrwyr cyfrwng Cymraeg yn Sir Fynwy drwy gynnal clybiau ieuenctid yn Y Fenni a Chil-y-coed. Ers dechrau'r pandemig, mae'r Urdd wedi bod yn cynnal clwb ar-lein digidol ac yn ceisio ail-ddechrau clwb ieuenctid cyn hir yn Nghil-y-coed a dechrau un arall yng ngogledd y sir.
- Rydym hefyd yn ariannu Swyddog Ti a Fi gyda Mudiad Meithrin er mwyn cefnogi grwpiau Ti a Fi newydd a'r rhai sydd eisoes yn bodoli ac rydym wedi

cynnal sesiynau Playmaker ag Ysgolion Cymraeg Y Fenni a'r Ffin ar gyfer blwyddyn 5 am bob blwyddyn o'r cynllun blaenorol.

# Proffil Lleol yr Iaith

Rydym wedi gweld cynnydd sylweddol ym mhroffil yr iaith Gymraeg yn y 30 mlynedd ers Cyfrifiad 1991 pan oedd 2.3% neu 1,844 o bobl yng Nghymru yn siarad Cymraeg. Yng Nghyfrifiad 2011, roedd hyn wedi cynyddu i 9.9% gyda'r data diweddaraf o Arolwg Poblogaeth Cymru yn dangos cynnydd i 16.4% neu 14,800 o'r boblogaeth.

Nifer y Siaradwyr Cymraeg yn Sir Fynwy

| | |
|---|---|
| Poblogaeth Sir Fynwy (3 mlwydd oed a'n hŷn): | 88,609 |
| Nifer y bobl sy'n siarad Cymraeg (3 mlwydd oed a'n hŷn): | 8,780 |
| Canran o'r bobl sy'n siarad Cymraeg (3 mlwydd oed a'n hŷn): | 9.9% |

(Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011)

Proffil oedran y siaradwyr

| | | |
|---|---|---|
| 3 - 15 mlwydd oed | 5.9% | 5,222 |
| 16 - 64 mlwydd oed | 3.4% | 3,046 |
| 65 + mlwydd oed | 0.6% | 512 |

(Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011)


Mae'n cael ei gydnabod fod y data o'r Cyfrifiad yn fwy cywir nag arolwg y boblogaeth. Fodd bynnag, tra ein bod yn aros am gyhoeddi data 2021, mae'r canlyniadau o'r Arolwg Poblogaeth Blynyddol yn rhoi rhyw fath o giplun cyffredinol o'r cynnydd positif sydd wedi ei wneud dros y 5 mlynedd ddiwethaf o'r strategaeth. Nid yw'r data o'r ffynhonnell 2016 yn rhoi mwy o fanylder ynglŷn â'r oedran fel sydd ei angen gan y Mesur Iaith Gymraeg (Cymru) 2011 a bydd hyn yn cael ei ychwanegu cyn gynted ag y bydd ar gael.

Mae cymhariaeth o'r data Arolwg Poblogaeth Blynyddol yn datgelu'r cynnydd canlynol dros gyfnod 5 Mlynedd y strategaeth:

| Mesur | 30/06/2016 | | 30/06/2021 | | Newid | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | nifer | canran | nifer | canran | nifer | canran |
| Yn siarad Cymraeg | 14,300 | 16.1% | 14,800 | 16.4% | + 500 | + 3.49% |
| Yn darllen Cymraeg | 12,600 | 14.2% | 13,600 | 15.1% | + 1,000 | + 7.93% |
| Yn ysgrifennu Cymraeg | 10,300 | 11.6% | 11,900 | 13.3% | + 1,600 | + 15.53% |
| Yn deall Cymraeg | 16,700 | 18.8% | 17,000 | 18.9% | + 300 | + 1.79% |

Mae'r ffigyrau uchod yn cyflwyno darlun positif gan fod yr holl gategorïau yn dangos cynnydd. Nid yw'r cynnydd yn y nifer o siaradwyr Cymraeg yn cyfateb gyda'r lefelau uwch o gynnydd ymhlith y sawl sydd yn ysgrifennu a'n darllen Cymraeg. Efallai bod diffyg hyder gan bobl yn eu gallu i siarad Cymraeg a llai o gyfleoedd i gymdeithasu a chlywed yr iaith yn y strydoedd yn y rhan benodol hon o Gymru.

Mae nifer y siaradwyr Cymraeg ar draws y Sir yn amrywio o ward i ward, gan amrywio o 6.8% yn St Mary's i 15.6% yn Rogiet.




Mae'r map yn dangos y canrannau o fewn ardaloedd cynnyrch yr adrannau etholiadol yng Nghyfrifiad 2011. Crëwyd y map gan Hywel Jones. Yn cynnwys data Ystadegau Cenedlaethol @ Hawlfraint y Goron a hawl y gronfa ddata. Yn cynnwys data o'r Arolwg Ordnans @ Hawlfraint y Goron a hawl y gronfa ddata 2013

# Beth Ydym Am Gyflawni: Ein Hamcanion 2022-27

Rydym am geisio sicrhau cynnydd yn y nifer o siaradwyr Cymraeg yn Sir Fynwy o 14,800 (30/06/2021) i 16,130 (30/06/2027) erbyn diwedd y Strategaeth 5 mlynedd hon. Bydd hyn yn gynnydd o 8.986% ac rydym yn rhagweld - yn seiliedig ar y fath gyfradd o gynnydd - y bydd yna 18,683 o siaradwyr Cymraeg yn Sir Fynwy erbyn 2050, cynnydd o 26.236%. Gyda phoblogrwydd cynyddol addysg cyfrwng Cymraeg yn Sir Fynwy a Chymru gyfan, a'r manteision a gydnabyddir yn rhyngwladol o dderbyn addysg ddwyieithog ac ymdrechion parhaus y Cyngor hwn, rydym yn gobeithio bod modd i ni gyrraedd y ffigyrau yma.

Ein nod yw hyrwyddo a diogelu'r iaith Gymraeg, ein diwylliant a'n treftadaeth er mwyn caniatáu pobl i fyw, gweithio a mwynhau gweithgareddau hamdden ar hyd a lled y sir.

Mae hyn yn ddyhead ar ran y sir, nid ein mudiad ni yn unig. Bydd angen i'n partneriaid sector cyhoeddus, busnesau a sectorau addysg a phobl a chymunedau Sir Fynwy oll i chwarae rhan.

Er mwyn cefnogi'r broses o gyflawni hyn, rydym wedi gosod 4 amcan. Isod, mae yna sampl o'r camau yr ydym am gymryd ac mae cynllun gweithredu mwy manwl yn yr adran nesaf:

| Amcan 1: Cynyddu'r nifer o blant sydd yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg | |
|---|---|
| Yr hyn a wnawn | • Cynyddu'r nifer o blant meithrin sydd yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg<br>• Cynyddu'r nifer o staff sydd yn medru addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg<br>• Yn sicrhau bod mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau asesedig drwy gyfrwng y Gymraeg<br>• Cynyddu'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol<br>• Apwyntio Swyddog Hyrwyddo Addysg cyfrwng Cymraeg |

| Amcan 2: Cynnig mwy o gyfleoedd i oedolion i ddysgu a defnyddio'r iaith | |
|---|---|
| Yr hyn a wnawn | • Cynnal ymgyrch farchnata er mwyn cynyddu'r nifer sydd yn mynychu dosbarthiadau dysgu Cymraeg ar gyfer oedolion<br>• Cynyddu ymwybyddiaeth o gyrsiau a deunydd iaith Gymraeg ar gyfer rhieni sydd yn danfon eu plant i ysgolion cyfrwng Cymraeg |

| | |
|---|---|
| | • Hyrwyddo'r defnydd o apiau ac adnoddau ar-lein eraill fel ffrdd o ddysgu Cymraeg |

| Amcan 3: Cynyddu'r nifer o gyfleoedd sydd ar gael i'r cyhoedd i ryngweithio gyda'r gwasanaethau cyhoeddus sydd yn cael eu darparu drwy gyfrwng y Gymraeg | |
|---|---|
| Yr hyn a wnawn | • Cynyddu'r nifer o staff sydd yn dysgu Cymraeg yn y gweithle<br>• Cynyddu'r nifer o staff sydd yn siarad Cymraeg yn y Cyngor o 38 i 50 (cynnydd o 31.57%)<br>• Gwella prosesau recriwtio er mwyn cynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg sydd yn gwneud cais am swyddi yn y sector cyhoeddus<br>• Yn sicrhau bod unrhyw ymatebion ar sianeli digidol sydd yn cael eu paratoi gan ddefnyddio Deallusrwydd Artiffisial o ansawdd cydradd yn y Gymraeg a'r Saesneg |

| Amcan 4: Gweithio gyda phartneriaid er mwyn creu mwy o gyfleoedd cymdeithasol i bobl i ddefnyddio'r iaith fel rhan o fywyd bob dydd. | |
|---|---|
| Yr hyn a wnawn | • Creu mwy o gyfleoedd i bobl i ymgysylltu a defnyddio'r iaith mewn hybiau cymunedol a llyfrgelloedd<br>• Cynyddu'r stoc o lyfrau Cymraeg mewn llyfrgelloedd lleol<br>• Yn sicrhau bod mwy o grantiau cyllid ar gael i grwpiau cymunedol i gefnogi a hyrwyddo'r defnydd o'r iaith<br>• Datblygu cylchlythyr misol sydd yn cynnig cyfleoedd o ran swyddi, gwirfoddoli a hyfforddi yn y Gymraeg |

# Cynllun Gweithredu

| Amcan | Cam Gweithredu | Mesur / Carreg Filltir | Amserlen | Swyddog / Partner Sy'n Gyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| Cynyddu'r nifer o blant sydd yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg | Apwyntio Swyddog Hyrwyddo Addysg Gymraeg er mwyn cynyddu'r nifer o blant sydd yn mynychu addysg cyfrwng Cymraeg. | Cynnydd yn y nifer a'r ganran sydd yn mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg | Medi 2022 | Cyfarwyddiaeth Plant a Phobl Ifanc |
| | Cynyddu'r gyfran sydd yn trosglwyddo'r Gymraeg o rieni i blant | Dadansoddi'r data yn flynyddol | Ionawr 2023 | Swyddog Hyrwyddo Addysg Gymraeg |
| | Hyrwyddo gwerth addysg ddwyieithog yn y farchnad swyddi | Cynnydd yn y nifer a'r ganran sydd yn mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg | 2022 - 2027 | Swyddog Hyrwyddo Addysg Gymraeg |
| | Cynyddu'r nifer o staff addysgu sydd yn medru addysgu yn y Gymraeg | Dadansoddi'r data yn flynyddol | Blynyddol | Pennaeth Gwasanaeth, Cyrhaeddiad ac Estyniad |
| | Yn sicrhau bod mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau asesedig drwy gyfrwng y Gymraeg | Dadansoddi'r data yn flynyddol | Blynyddol | Pennaeth Gwasanaeth, Cyrhaeddiad ac Estyniad |
| | Cynyddu'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol | Dadansoddi'r data yn flynyddol | Mawrth 2027 | Pennaeth Gwasanaeth, |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Cyrhaeddiad ac Estyniad |
| Cynnig mwy o gyfleoedd i oedolion i ddysgu a defnyddio'r iaith | Trefnu hyfforddiant iaith Gymraeg ar gyfer staff y Cyngor, staff mewn ysgolion ac aelodau o'r cyhoedd drwy ddefnyddio'r opsiynau dysgu niferus sydd ar gael: (Cymraeg yn y Gweithle mewn partneriaeth gyda Choleg Gwent) Mynediad, Sylfaen, Canolradd, Uwch, Gloywi, Cyrsiau Penwythnos, Say Something in Welsh (6 munud y diwrnod fel rhan o'r opsiwn dysgu'n gyflym) a darpariaeth Addysg Gymunedol Iaith Gymraeg Sir Fynwy, Duo-Lingo a Say Something in Welsh | Cynnydd yn y nifer o oedolion sydd yn cofrestru ar gyfer cyrsiau Cymraeg o flwyddyn i flwyddyn | Blynyddol | Swyddog Iaith Gymraeg |
| | Cynnal ymgyrch farchnata er mwyn cynyddu'r nifer sydd yn mynychu dosbarthiadau dysgu Cymraeg ar gyfer oedolion | Cynnydd yn y nifer o oedolion sydd yn mynychu dosbarthiadau dysgu Cymraeg | 2022 - 2027 | Rheolwr Cyfathrebu a Marchnata |
| Cynyddu'r nifer o gyfleoedd sydd ar gael i'r cyhoedd i ryngweithio gyda'r gwasanaethau cyhoeddus sydd yn | Cynyddu'r nifer o staff sydd yn siarad Cymraeg yn y Cyngor o 38 i 50 (cynnydd o 31.57 %) | Archwilio ffigyrau blynyddol fel rhan o'r broses adrodd a monitro blynyddol | Mawrth 2027 | Swyddog Iaith Gymraeg |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| cael eu darparu drwy gyfrwng y Gymraeg | | | | |
| | Cyflogi dau siaradwr Cymraeg mewn gwasanaethau sy'n delio gyda'r cyhoedd er mwyn caniatáu trigolion Cymraeg i gael mynediad at wasanaethau'r Cyngor yn eu dewis iaith | Archwilio ffigyrau blynyddol fel rhan o'r broses adrodd a monitro blynyddol<br><br>Monitro swyddi gwag y Cyngor yn wythnosol | Mawrth 2027 | Swyddog Iaith Gymraeg<br><br>Swyddog Iaith Gymraeg |
| | Yn sicrhau bod yr holl swyddi gwag sydd yn cael eu hysbysebu yn cyfeirio at yr angen am sgiliau iaith Gymraeg yn y manyleb person er mwyn caniatáu fod modd sicrhau bod hyn yn rhan o'r broses sgorio ar gyfer llunio'r rhestr fer | Cynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg sydd ar y rhestr fer ac yn cael eu hapwyntio | Blynyddol | Swyddog Iaith Gymraeg |
| | Yn sicrhau bod unrhyw ymatebion ar sianeli digidol sydd yn cael eu paratoi gan ddefnyddio Deallusrwydd Artiffisial o ansawdd cydradd yn y Gymraeg a'r Saesneg | Cynyddu'r nifer sydd yn defnyddio sianeli digidol y Cyngor drwy gyfrwng y Gymraeg | Parhaus | Pennaeth Polisi, Perfformiad a Chraffu |
| | Gweithio mewn partneriaeth gyda'r mudiadau canlynol er mwyn darparu gwasanaethau a chyfleoedd cymdeithasol drwy gyfrwng y Gymraeg: Cymraeg yn y Gweithle (Coleg Gwent), Cymraeg i Blant, Mudiad Ysgolion Meithrin, Menter Iaith BGTM a'r Urdd | Cynyddu'r nifer o gyfleoedd sydd ar gael | Parhaus | Swyddog Iaith Gymraeg |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Gweithio gyda phartneriaid er mwyn creu mwy o gyfleoedd cymdeithasol i bobl i ddefnyddio'r iaith fel rhan o fywyd bob dydd. | Mae Cyngor yn sicrhau bod cyllid ar gael i wneud cais i fudiadau iaith Gymraeg er mwyn cynorthwyo gyda threfnu a chynnal digwyddiadau iaith Gymraeg | Dyrannu'r gyllideb yn flynyddol | Blynyddol | Swyddog Iaith Gymraeg |
| | Parhau i weithio'n agos gyda'n mudiadau partner er mwyn hyrwyddo digwyddiadau a gwasanaethau iaith Gymraeg a hysbysebu'r holl swyddi gwag sydd angen yr iaith Gymraeg. | Danfonwyd e-byst i'n cysylltiadau iaith Gymraeg pan maent yn cael eu derbyn | Parhaus | Swyddog Iaith Gymraeg |
| | Creu mwy o gyfleoedd i bobl i ymgysylltu a defnyddio'r iaith mewn hybiau cymunedol a llyfrgelloedd | Trefnu rhaglen o ddigwyddiadau | Parhaus | Rheolwr Hyb Cymunedol |
| | Cynyddu'r stoc o lyfrau Cymraeg mewn llyfrgelloedd lleol | Cynnydd yn y nifer pan yn cael ei archwilio'n flynyddol | Medi 2022 | Rheolwr Hyb Cymunedol |
| | Datblygu cylchlythyr misol sydd yn cynnig cyfleoedd o ran swyddi, gwirfoddoli a hyfforddi yn y Gymraeg | Paratoi'r cylchlythyr cyntaf | Ionawr 2023 | Swyddog Iaith Gymraeg |
| | Hyrwyddo'r gwasanaethau yr ydym ni fel Cyngor yn medru darparu drwy gyfrwng y Gymraeg | Trefnu ymgyrch hyrwyddo 6 mis | Yn barhaus bob 6 mis | Swyddog Iaith Gymraeg + Rheolwr Cyfathrebu |

# Deilliannau'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022 – 2032 - Atodiad 1.

Er mwyn sicrhau'r cynnydd parhaus yn y nifer o bobl sydd yn siarad Cymraeg yn y Sir, rydym yn buddsoddi'n sylweddol mewn adnoddau ffisegol ac ariannol ar addysgu plant drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022 - 2032 a'i obeithion a'i ddyheadau yn elfen allweddol o lwyddiant y Strategaeth 5 Mlynedd yma. Mae'n cynnwys 7 deilliant ac maent wedi eu manylu isod ond ewch i'r ddolen yma er mwyn darllen y ddogfen gyfan: https://www.monmouthshire.gov.uk/wesp/

## Ble ydym yn disgwyl bod o fewn pum mlynedd gyntaf ein cynllun, Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg?

**Deilliant 1:** Mwy o blant ysgol feithrin / tair blwydd oed yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg

**Deilliant 2:**

Mwy o blant dosbarth derbyn / pum mlwydd oed yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg

**Deilliant 3:**

Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau iaith Gymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod yn eu haddysg statudol i gyfnod arall

**Deilliant 4:**

Mwy o ddysgwyr yn astudio am gymwysterau sydd wedi eu hasesu yn y Gymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg

**Deilliant 5:**

Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol yn yr ysgol

**Deilliant 6:**

Cynnydd mewn darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn unol gyda'r dyletswyddau sydd wedi eu cyflwyno gan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg 2018

**Deilliant 7:**

Cynnydd yn y nifer o staff dysgu sydd yn medru addysgu'r Gymraeg (fel pwnc) ac yn addysgu drwy gyfwng y Gymraeg

# Cyraeddiadau – Atodiad 2

Trefnwyd neu ariannwyd y gweithgareddau canlynol gan y Cyngor yn ystod y cyfnod 2017-22 er mwyn hyrwyddo a chynyddu'r defnydd o'r iaith Gymraeg:

- Trefnwyd hyfforddiant iaith Gymraeg ar gyfer swyddogion y Cyngor, staff mewn ysgolion ac aelodau'r cyhoedd drwy ddefnyddio'r opsiynau dysgu niferus sydd ar gael: Cymraeg yn y Gweithle (mewn partneriaeth gyda Choleg Gwent) Mynediad, Sylfaen, Canolradd, Uwch, Gloywi, Cyrsiau Penwythnos, Say Something in Welsh (6 munud y diwrnod fel rhan o'r opsiwn dysgu'n gyflym) a darpariaeth Addysg Gymunedol Iaith Gymraeg Sir Fynwy.
- Darparu cymorth i fyfyrwyr cyfrwng Cymraeg drwy gynnal clwb ieuenctid a chefnogi myfyrwyr sydd yn symud o addysg gynradd i addysg uwchradd mewn partneriaeth gyda'r Urdd.
- Hyrwyddo a dathlu digwyddiadau iaith Gymraeg a diwylliant ar wefan dwyieithog y Cyngor, e-bost, Facebook, Twitter ac YouTube er mwyn hyrwyddo a dangos cefnogaeth y Cyngor at yr iaith Gymraeg: Dydd Gŵyl Dewi; Diwrnod Shwmae; Y Pethau Bychan; cystadleuaeth rygbi'r Chwe Gwlad.
- Lansiwyd y sgwrsfot iaith Gymraeg gyntaf o'r holl wasanaethau awdurdodau lleol ac ap hunan-wasanaethu dwyieithog llawn er mwyn i bobl gael mynediad at wasanaethau'r Cyngor
- Cynhaliwyd yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghastell Castle, Y Fenni, cyn y cyfnod datblygu a chyn cyhoeddi ein strategaeth gyntaf. Mynychwyd y digwyddiad byd enwog hwn gan fwy na 150,000 o bobl ac mae'n cael ei chydnabod fel un o'r Eisteddfodau mwyaf llwyddiannus a phoblogaidd y cyfnod modern, a hynny'n deyrnged i ymroddiad ac ansawdd trefniadau'r Cyngor. Mae hefyd wedi gadael gwaddol ffantastig drwy adfywio'r iaith yn y sir.
- Wedi gweithio gyda Chymraeg i Blant er mwyn trefnu a chynnal sesiynau niferus ar gyfer rhieni a phlant yn ein hybiau ar draws y Sir a'u bod wedi bod yn hynod lwyddiannus. Rydym wedi cynnal y rhain ym Mrynbuga, Cas-gwent, Trefynwy, Gilwern a'r Rhaglan ac mae'r sesiynau yma wedi cynnwys: ioga ar gyfer babanod, sesiynau tylino babanod, Stori a Chân. Yn ystod y pandemig, maent wedi bod yn hwyluso'r cyrsiau uchod ar-lein ac wedi cynnwys dau gwrs ychwanegol - cwrs Fi a Fy Mabi am 4 wythnos ar gyfer tadau a mamau newydd, Cwrs Cwpaned a Chlonc ar gyfer rhieni i ymarfer eu Cymraeg mewn modd anffurfiol gyda lluniaeth.
- Roeddem wedi sicrhau bod cytundeb lefel gwasanaeth yn cael ei ariannu o dan y Grant Cymorth Ieuenctid gyda'r Urdd rhwng 2017 a 2019 ac ail-ddechreuodd hyn yn 2019 ac mae'n parhau. Mae'r cytundeb ar gyfer parhau cymorth i fyfyrwyr cyfrwng Cymraeg yn Sir Fynwy drwy gynnal clybiau ieuenctid yn Y Fenni a Chil-y-coed. Ers dechrau'r pandemig, mae'r Urdd wedi

bod yn cynnal clwb ar-lein digidol ac yn ceisio ail-ddechrau clwb ieuenctid cyn hir yn Nghil-y-coed a dechrau un arall yng ngogledd y sir.

- Yn 2019, roeddem wedi apwyntio swyddog datblygu iaith Gymraeg sydd wedi cynnal clybiau dros ginio ac ar ôl ysgol (Clwb Clecs) yng Nghil-y-coed a Threfynwy.
- Rydym wedi gweithio’n agos gyda Mudiad Meithrin er mwyn sefydlu dau grŵp chwarae cyfrwng Cymraeg ers 2017; agorodd Cylch Meithrin Cil-y-coed yn Hydref 2017 ac agorwyd Cylch Meithrin Trefynwy yn Ebrill 2019.
- Rydym hefyd yn ariannu Swyddog Ti a Fi gyda’r Mudiad Meithrin er mwyn sefydlu grwpiau Ti a Fi newydd a chefnogi’r rhai sydd eisoes yn bodoli
- Rydym wedi gwneud cais ac wedi llwyddo sicrhau cyllid cyfalaf gan Lywodraeth Cymru er mwyn adeiladu darpariaeth gofal plant ar safle Ysgol Y Ffin i ddarparu gofal cofleidiol ar gyfer yr Ysgol Feithrin a dylid cwblhau’r gwaith yma cyn diwedd y flwyddyn ariannol 2021 – 2022.
- Ym Medi 2021, Ysgol Gymraeg Y Ffin oedd y safle cyntaf ar gyfer Uned Drochi Iaith Gymraeg, y cyntaf yn Sir Fynwy.
- Mae tudalen iaith Gymraeg gennym ar wefan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd (FIS) ac yn rydym yn cyhoeddi negeseuon yn aml ar Facebook ar fanteision dwyieithrwydd. Rydym hefyd yn rhannu negeseuo gan y Mudiad Meithrin a’n hyrwyddo’r grwpiau Cymraeg i Blant sydd yn cael eu cynnal yn Sir Fynwy.
- Mae Mudiad Meithrin yn rhan o Bartneriaeth Datblygu a Gofal Plant Blynyddoedd Cynnar (EYDCP) ac yn rhan o’r trafodaethau ar ddatblygiadau’r dyfodol ac yn cefnogi gofynion penodol.
- Mae Datblygu Ieuenctid wedi cynnal sesiynau Playmaker ag Ysgolion Cymraeg Y Fenni a’r Ffin ar gyfer blwyddyn 5 am bob un flwyddyn o’r cynllun blaenorol.
- Cynhaliwyd sesiynau chwaraeon dwyieithog cyn y cyfnod Covid yn 2019.

# Cynllun Gweithredu 2017 – 2022 – A wnaethom gyrraedd ein targedau? (Atodiad 3)

| | Beth | Sut | Cynnydd a wneir |
|---|---|---|---|
| 1 | Penodi mwy o staff sy'n siarad Cymraeg i swyddi allweddol | Cynllunio gweithlu adrannol<br><br>Asesu pob swydd wag yn unigol | • Erbyn mis Ionawr 2022, roedd 38 o aelodau staff gennym sydd yn siaradwyr Cymraeg rhugl. Y targed oedd 40. |
| 2 | Rhoi mwy o gyfleoedd i blant ddysgu'r iaith yn y Sir | Hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg ar oedran ifanc | • Mae gwybodaeth am fanteision addysg cyfrwng Cymraeg wedi ei chyhoeddi ar adran Plant a Phobl Ifanc ar wefan y Cyngor<br>• Mae ystafelloedd dosbarth newydd wedi eu darparu yn Ysgol Gymraeg Y Fenni er mwyn cynyddu'r capasiti yno<br>• Mae cynnig wedi ei wneud i adleoli Ysgol Gymraeg Y Fenni o'r safle presennol i Ysgol Gynradd Deri View. Bydd hyn yn cynyddu capasiti'r ysgol o 310 i 420<br>• Mae Cylch Meithrin wedi ei gytuno ar gyfer Ysgol Gymraeg Y Ffin<br>• Mae darpariaeth Trochi Iaith ac ystafelloedd dosbarth ychwanegol wedi cael eu cytuno gan Ysgol Gymraeg Y Ffin. Bydd yn cynyddu capasiti'r ysgol o ran disgyblion o 180 i 210. Agorwyd yr Uned Drochi ym Medi 2021<br>• Mae cyllid wedi ei sicrhau gan Lywodraeth Cymru i ddarparu ysgol gynradd newydd yn ardal Trefynwy. Er ymdrechion |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | sylweddol y Cyngor, mae'r prosiect wedi wynebu nifer o drafferthion. Mae'r prosiect wedi profi heriau wrth geisio dod o hyd i safleoedd posib yn Nhrefynwy a'r ardal gyfagos yn sgil llifogydd a phryderon eraill. Mae gwaith yn cael ei wneud i sefydlu egin ddarpariaeth yn yr ardal leol gan glustnodi safle sydd yn medru cael ei ddatblygu yn y dyfodol agos<br>• Mae trafodaethau wedi eu cynnal rhwng Sir Fynwy, Blaenau Gwent a Phowys er mwyn gwyntyllu a allwn weithio ar y cyd i ddarparu ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg er mwyn diwallu anghenion y tair Sir |
| 3 | Rhoi cyfle i staff fynychu sesiynau ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ac wedyn symud ymlaen i ddosbarthiadau Cymraeg i ddysgu'r iaith<br><br>Cynyddu'r nifer o staff y Cyngor sydd yn dysgu Cymraeg o 14 i 28 erbyn diwedd y strategaeth – cynnydd o 100% | Trefnu rhaglen o ddosbarthiadau ar gyfer dysgwyr | • Dros gyfnod y strategaeth ddiwethaf, roedd cyfanswm o 210 o aelodau staff wedi mynychu ystod gynhwysfawr o ddosbarthiadau iaith Gymraeg sydd ar gael i'n holl aelodau staff. Ar gyfartaledd, roedd tua 42 o fyfyrwyr gennym y flwyddyn sydd yn uwch na'r targed o 28. Cynigiwyd y cyrsiau canlynol<br>• Cwrs ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg, Mynediad 1 + 2, Sylfaen 1 + 2. Canolradd 1 + 2 (gan gynnwys treulio wythnos yn Nant Gwrtheyrn), Cyrsiau Penwythnos, Work Welsh, Clwb Clonc. Mae arbrawf dysgu'n gyflym dros 6 mis "Dweud Rhywbeth yn y Gymraeg" yn mynd i ddechrau wrth i'r pandemig liniaru ac rydym yn gobeithio y bydd hyn yn cyflawni'r un amcanion â'r Clwb Clonc<br>• Mae'r holl gyrsiau yma yn cael eu hariannu yn llwyr ac mae modd cael mynediad at y cyrsiau adeg oriau gwaith neu ar ôl gwaith – a hynny'n unol gyda dymuniadau'r swyddog<br>• Mae'r pandemig Covid wedi lleihau'r nifer o swyddogion sydd yn mynychu'r cyrsiau. Y ddau brif reswm am hyn yw 1) staff yn gorfod chwarae rôl wahanol mewn adrannau gwahanol 2) rhai |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | swyddogion yn dymuno dysgu wyneb i wyneb ynn hytrach na thrwy Zoom neu Teams. |
| 4 | Annog staff i ddysgu Cymraeg drwy "Gwrs Mynediad" ayyb neu ar-lein gyda "Say Something in Welsh" neu "Duo Lingo" | Hysbysebu cyrsiau ar y fewnrwyd a thrwy e-bost | • Mae e-byst yn cael eu danfon bob Gorffennaf i'r holl swyddogion ac yn gwneud yn ymwybodol o'r ddarpariaeth sydd ar gael. Mae'r rhain hefyd yn cael eu hysbysebu ar ein rhyngrwyd mewnol. |
| 5 | Gweithio'n agos gyda phartneriaid, i normaleiddio a rhoi cyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r iaith yn y gwaith a hefyd yn gymdeithasol. | Gweithio mewn partneriaeth gyda chydweithwyr i wneud yn siŵr fod y cyfle gan Gyngor Sir Fynwy i fod yn rhan o bob cynllun partneriaeth a drefnir | • Mae cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn gyson gyda'n mudiadau partner drwy'r Fforwm Addysg Gymraeg, the Fforwm Gymraeg (a drefnwyd drwy'r Fenter Iaith), a thrwy'r Grŵp Deddf (Fforwm Rhanbarthol Swyddogion Iaith) er mwyn dysgu am unrhyw ddatblygiadau newydd. Rydym yn cynnal cronfa ddata cynhwysfawr o'r cysylltiadau a wnaed yn ystod Eisteddfod yn 2016 ac mae'n bosib rhannu gwybodaeth am ddigwyddiadau, cyfarfodydd, hyfforddiant iaith Gymraeg, swyddi gwag sydd angen iaith Gymraeg ac ymgynghoriadau ar faterion sydd yn ymwneud gyda'r iaith. |
| 6 | Rhoi mwy o gyfleoedd i'r cyhoedd i gael mynediad i wasanaethau a chyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg | Canfod pa wasanaethau mae'r cyhoedd eu heisiau drwy gyfrwng y Gymraeg. | • Y targed ar gyfer y nifer o staff yn y Cyngor sy'n siarad Cymraeg yn rhugl oedd cynyddu o 28 i 40 erbyn 2022. Yn anffodus, nid ydym wedi bwrw' targed yma ac wedi cyrraedd 38.<br>• Mae'r holl swyddi wedi eu hysbysebu fel rhai sydd yn nodi bod sgiliau iaith Gymraeg yn ddymunol dros y ddwy flynedd ddiwethaf. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Edrych ar benodi siaradwyr Cymraeg neu weithio mewn partneriaeth i ddarparu'r gwasanaeth/gweithgaredd | • Rhaid i'r holl swyddi wedi eu hysbysebu fel rhai sydd yn nodi bod sgiliau iaith Gymraeg yn ddymunol gynnwys sgiliau Cymraeg yn y manyleb person er mwyn sicrhau bod y sgiliau yma yn rhan hanfodol o'r system ar gyfer llunio'r rhestr fer gan gynyddu'r posibilrwydd o apwyntio siaradwyr Cymraeg.<br>• Mae swyddi wedi eu hysbysebu fel rhai sydd yn nodi bod sgiliau iaith Gymraeg yn hanfodol yn cael eu hysbysebu'n helaeth gan ddefnyddio safleoedd recriwtio penodol ar gyfer yr iaith Gymraeg, Linkedin, fideos ar gyfer You tube, twitter a facebook a'r gronfa ddata o siaradwyr Cymraeg a nodir yn y ddogfen hon. |
| • | Manteisio ar egni ac ewyllys da pwyllgorau codi arian lleol i gynyddu defnydd yr iaith | Gweithio gyda'r pwyllgorau codi arian i drafod 'gwaddol' briodol ar gyfer yr Eisteddfod | • Mae rhai o'r grwpiau gwaddol dal yn weithredol (fel Cymdeithasau Cymraeg Trefynwy, Cil-y-coed a Chas-gwent) dal yn derbyn cefnogaeth sylweddol. Mae'r WLO yn derbyn gwybodaeth yn gyson o'r grwpiau yma ac yn rhannu hyn drwy'r gronfa ddata<br>• Mae Cymreigyddion Y Fenni a grëwyd gan Foneddiges Llanofer yn yr 1880au hwyr wedi cynyddu eu haelodaeth o ganlyniad i'r Eisteddfod<br>• Mae'r Ganolfan Gymraeg yng Nghas-gwent yn gwerthu llyfrau, nwyddau Cymraeg ac yn cynnal dosbarthiadau Cymraeg o ganlyniad i ymdrechion Cymdeithas Gymraeg Cas-gwent<br>• Roedd Eisteddfod Genedlaethol Y Fenni yn 2016 yn gymaint o lwyddiant fel bod prinder tiwtoriaid iaith Gymraeg i ddiwallu'r angen am ddosbarthiadau iaith Gymraeg yn Sir Fynwy |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 8. | Yn sicrhau bod y CSCmA yn flaenoriaeth strategol ar gyfer Sir Fynwy | Yn gweithio gyda phartneriaid er mwyn sicrhau bod polisïau yn cael eu datblygu i ddiwallu anghenion pobl Sir Fynwy | • Mae'r CSCmA yn cael ei fonitro gan Fforwm Cymraeg Sir Fynwy sydd yn cynnwys swyddogion, penaethiaid a mudiad partner iaith Gymraeg- Urdd Gobaith Cymru, Menter Iaith Blaenau Gwent Torfaen Mynwy, Llywodraeth Cymru, Mudiad Meithrin, Cymraeg i Blant, Rhieni Dros Addysg Gymraeg (RHAG), Coleg Gwent, Gwasanaeth Cyflawni Addysg<br>• Cyflwynwyd y ddogfen derfynol i'r Cabinet ar gyfer ei chymeradwyo ar 5ed Ionawr 2022 ac i Lywodraeth Cymru sydd angen ei chymeradwyo erbyn diwedd Ionawr 2022 |
| 9. | Cyflwyno dulliau mwy effeithiol o hyrwyddo manteision addysg cyfrwng Cymraeg ymhlith disgyblion a rhieni er mwyn creu mwy o alw am ysgolion cynradd ddrwy ddarparu gwybodaeth well a mwy hygyrch i ysgolion ac i wasanaethau sydd yn defnyddio'r iaith Gymraeg | Yn hyrwyddo buddion Addysg ddwyieithog at gyfer plant i rieni | • Mae manteision addysg cyfrwng Cymraeg wedi cyhoeddi ar ran Plant a Phobl Ifanc gwefan y Cyngor. Gwnaed hyn mewn cydweithrediad gyda'n partneriaid Fforwm Addysg Cymraeg (FfAG) |
| 10. | Yn sicrhau bod ein Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif Band B yn gyson gyda'r CSCmA er mwyn ateb y galw a ragwelwyd erbyn 2020 ac yn cefnogi'r galw posib sydd | Ceisio rhagweld y galw yn y dyfodol ac yna'n sicrhau'r cyllid er mwyn caniatáu bod modd datblygu'r prosiectau | • Darparwyd dosbarthiadau newydd yn Ysgol Gymraeg Y Fenni yn 2020 er mwyn creu capasiti<br>• Mae cynnig wedi ei wneud i adleoli i Ysgol Gymraeg Y Fenni o'r safle presennol i Ysgol Gynradd Deri View. Bydd hyn yn cynyddu capasiti'r ysgol o 310 i 420<br>• Mae yna gytundeb i sefydlu Cylch Meithrin wedi ei gytuno ar gyfer Ysgol Gymraeg Y Ffin |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | wedi ei nodi ar gyfer y dyfodol | | • Mae darpariaeth drochi ac ystafelloedd dosbarth ychwanegol wedi eu cytuno yn Ysgol Gymraeg Y Ffin. Bydd yn cynyddu capasiti'r ysgolion o 180 o ddisgyblion i 210 pupil<br>• Mae darpariaeth Trochi Iaith ac ystafelloedd dosbarth ychwanegol wedi cael eu cytuno gan Ysgol Gyfun Y Ffin. Bydd yn cynyddu capasiti'r ysgol o ran disgyblion o 180 i 210 o ddisgyblion.<br>• Mae cyllid wedi ei sicrhau gan Lywodraeth Cymru i ddarparu ysgol gynradd newydd yn ardal Trefynwy. Mae gwaith yn cael ei wneud i sefydlu egin ddarpariaeth yn yr ardal leol gan glustnodi safle sydd yn medru cael ei ddatblygu yn y dyfodol agos<br>• Mae trafodaethau wedi eu cynnal rhwng Sir Fynwy, Blaenau Gwent a Phowys er mwyn gwyntyllu a allwn weithio ar y cyd i ddarparu ysgol uwchradd cyfwng Cymraeg i ddiwallu anghenion y tair Sir |
| 11. | Cynyddu'r gyfran o blant a phobl ifanc sydd wedi eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn Sir Fynwy o 577 o fyfyrwyr i 663 o fyfyrwyr, cynnydd o 15% erbyn 2022 | Hyrwyddo gwerth addysg ddwyieithog. | • Mae'r tabl isod yn cynnwys ffigyrau fel yr oeddynt ym mis Medi 2021 a bydd y ffigwr yn cynyddu yn ystod Ionawr ac Ebrill 2022. Yn anffodus, mae'n annhebygol y byddwn yn cyrraedd ein nod i gynyddu'r niferoedd |

| Enw'r Ysgol | Nifer ar y gofrestr |
|---|---|
| Ysgol Gymraeg Y Fenni (yn cynnwys y Meithrin) | 276 |
| Ysgol Gymraeg Y Ffin (yn cynnwys y Meithrin) | 103 |
| Cyfanswm Cynradd | 379 |
| Ysgol Gyfun Gwynllyw | 76 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Ysgol Gyfun Gwent Is Coed: 65<br>Cyfanswm Uwchradd: 141<br>Cyfanswm: 520 |
| 12 | Cynyddu'r gyfran sydd yn trosglwyddo o Gyfnod Allweddol 2 i 3 i 95% erbyn 2022. (2016 - 2017 Ysgol Gymraeg Y Ffin 93.3% neu 14 o bob 15) Ysgol Gymraeg Y Fenni 2016 - 2017 78.6% neu 22 o 28 / Cyfanswm 83.7% neu 36 o 43) | Hyrwyddo gwerth sgiliau iaith Gymraeg yn y farchnad lafur yng Nghymru | • Roedd 12 o 14 neu 85.714% wedi symud o Ysgol Gymraeg Y Ffin i Ysgol Gyfun Is-Coed<br>• Roedd 10 o 33 neu 30.30% wedi symud o Ysgol Gymraeg Y Fenni i Ysgol Gyfun Gwynllyw. Mae'r CSCmA wedi nodi ambell reswm am y cyfraddau trosglwyddo siomedig yma:<br>• Mae myfyrwyr o ogledd ddwyrain y Sir yn gorfod teithio dipyn ymhellach ac am fwy o amser os ydynt am fynychu ysgol cyfrwng Cymraeg o'u cymharu gyda'r sawl sydd am fynd i ysgolion cyfrwng Saesneg<br>• At hyn, rydym wedi agor dwy ysgol newydd cyfrwng Saesneg yn Nhrefynwy a Chil-y-coed dros y tair blynedd ddiwethaf |
| 13 | Cynyddu'r gyfran o bobl ifanc yn Sir Fynwy sydd yn gadael yr ysgol a'n meddu ar sgiliau dwyieithog (Cymraeg a Saesneg) y mae modd eu defnyddio yn y gweithle, a hynny o 577 i 1,106 erbyn 2022 | Hyrwyddo gwerth sgiliau iaith Gymraeg yn y farchnad lafur yng Nghymru | • Ar draws ein 4 ysgol uwchradd, roedd 781 o ddisgyblion, gyda 718 neu 91.9% wedi astudio Cymraeg TGAU. Nid oedd manylion cyrsiau Cymraeg byr ar gael<br>• O'r 354 o ddisgyblion a oedd yn astudio Cymraeg Lefel A, roedd 11 wedi astudio Cymraeg yn Ysgol Brenin Harri'r VIII a neb yng Nghas-gwent |
| 14 | Cynyddu capasiti y llefydd cyfrwng Cymraeg er mwyn cydnabod y galw cyffredinol am lefydd. Bydd ein rhaglen | Ceisio rhagweld y galw yn y dyfodol ac yna'n sicrhau'r cyllid er mwyn caniatáu | • Mae'r prosiect wedi ei ddiwygio. Roedd yna wrthwynebiad gan ein Fforwm Cymraeg i'r cynnig i sefydlu ffrwd uwchradd cyfrwng Cymraeg gan iddynt deimlo mai trochi disgyblion yn yr iaith oedd y ffordd orau iddynt ddod yn rhugl. Mae'r cynnig |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Buddsoddi mewn ysgolion 21ain Ganrif (2019-2023) yn cefnogi hyn drwy ddatblygiad arfaethedig ysgol 3 - 19 yn Y Fenni er mwyn caniatáu disgyblion yn Sir Fynwy i barhau gyda'u haddysg uwchradd cyfrwng Cymraeg o fewn y sir. At hyn, bydd y cynnig yn cynnwys adleoli Ysgol Y Fenni i safle presennol Deri View to er mwyn cynyddu'r nifer o lefydd cyfrwng Cymraeg yn unol gyda'r galw a ragwelir | bod modd datblygu'r prosiectau | wedi ei ddiwygio gyda'r ysgol 3-19 yn ysgol cyfrwng Saesneg yn unig, ac sydd yn ymgorffori disgyblion o Ysgol Gynradd Deri View. Bydd cam nesaf y rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif (Band C) yn parhau'r un peth gydag adleoli Ysgol Gymraeg Y Fenni i safle Deri View a chynyddu'r capasiti o 317 i 420 ddisgyblion |